# *Cyngor Tref Llandeilo Fawr*

# *Llandeilo Fawr Town Council*

**Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 13eg o Ionawr 2010, yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh**

**Presennol:** Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Chris Parish (Cadeirydd), Cyng. Edward Thomas, Cyng. Colin Jenkins, Cyng. Ieuan Gwyn, Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Hugh Towns, Cyng. Ros Bellamy, Cyng. Roy Davies, Cyng. Julia Jones, Cyng. Dawn Wallace.

**Cof 240 / Ion / 10 Cyfrifon i'w talu.**

| | | |
|---|---|---|
| CGGC (Gwein. Rhagfyr 2009) | £ | 34.79 |
| Taliadau post y Clerc a chost addasydd rhyngrwyd | £ | 44.80 |
| BT (Ffôn y Swyddfa) | £ | 101.88 |
| W. Kingsbury (switsh amser) | £ | 4.59 |
| Westward (Boeler Neuadd y Sir) | £ | 174.80 |
| D.Cledwyn Moses (atgyweirio nenfwd DD 250) | £ | 546.25 |
| Davies Electrics (goleuadau Nadolig) | £ | 2,573.25 |
| Orchardweb (diweddaru'r wefan) | £ | 75.00 |
| Gwasanaethau Laurence Scaffolding (arddangosiad tân gwyllt) | £ | 184.00 |

Pasiwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

**Cof 241 /Ion /10 Incwm a Dderbyniwyd yn Rhagfyr 2009**

| | | |
|---|---|---|
| Praesept CSG | £ | 15,891.33 |
| Llog y cyfrif cadw | £ | 5.71 |

**Cof 242 / Ion / 10 Balansau'r Cyfrifon**

Cofnodwyd y **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar sefyllfa ariannol y Cyngor:

| | | |
|---|---|---|
| LTC CYFRIF CYFREDOL fel ar ( 31.12.09) | £ | 17,508.94 |
| LTC CYFRIF CADW fel ar ( 19.12.09) | £ | 17,165.55 |
| LTC Cyfrif Treuliau'r Maer ( 20.12.09 ) | £ | 1,788.92 |

**Cof 243 / Ion/10 Materion Ariannol Eraill**

1. Adroddiad y gyllideb hyd at Ddiwedd Rhagfyr 2009.
   Rhoddodd y Swyddog Cyllid adroddiad cynhwysfawr ar gyllideb y Cyngor hyd yn hyn. Cynigodd y Cadeirydd, y Cyng. Chris Parish, bod hyn yn cael ei dderbyn fel cofnod cywir.

2. Rhagolwg y Gyllideb Tair Blynedd.
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi paratoi rhagolwg Cyllideb 3 blynedd. Penderfynodd y Cynghorwyr i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r rhagolwg y mis hwn. Gofynnwyd i'r Clerc i anfon copïau o'r data hwn i'r Cynghorwyr a oedd wedi methu â mynychu oherwydd y tywydd gwael.

3. Ceisiadau am Gymorth Ariannol
   Cytunwyd ar y ceisiadau canlynol:-
   i) Eisteddfod yr Urdd – Ceredigion 2010 (Adran 145). £50. Cynigwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater, eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas.
   ii) Eisteddfod Genedlaethol – Blaenau Gwent. Penderfynwyd peidio â rhoi cymorth.
   iii) Adfer Ceffylau a Merlod Fforest Uchaf. Gwent. Penderfynwyd peidio â rhoi cymorth.
   iv) Blas, bywyd ar ôl strôc. Grŵp Dinefwr. (Adran 137) £ 150. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn.
   v) Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. (Adran 145) £50. Cynigwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater, eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins
   vi) Canolfan Cyngor ar Bopeth Rhydaman a'r Cylch. (Adran 142) £ 150. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn.
   vii) Menter Bro Dinefwr (Adran 137). £100. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas.
   viii) Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo (Adran 137). £300. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins.

**Cof 244 / Ion / 10 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid**

1. Manylion praesept CSG ar gyfer 2010/11. Sylfaen treth y Cyngor (Cymru) ar gyfer Band D fyddai £770.64
2. Ymgynghoriad ar Gyllideb CSG ar gyfer 2010-2013. Trafododd yr aelodau'r blaenoriaethau a nodwyd, a byddent yn cael eu dychwelyd i CSG yn y drefn pwysigrwydd ganlynol:
   i) Gwneud gwell defnydd o'n hadnoddau
   ii) Teimlo'n dda- Iechyd a Lles
   iii) Teimlo'n ddiogel – cymunedau mwy diogel
   iv) Lle gwell – yr Amgylchedd
   v) Buddsoddi ac arloesi - Adfywio
   vi) Agor drysau – dysgu gydol oes

**Cof 245 /Ion / 10 Agweddau Ariannol o Adroddiad y Swyddog Technegol.**

Cyflwynodd y Swyddog Technegol adroddiad i'r Cyngor ei ystyried. Roedd yna ddau argymhelliad oddi wrth y Pwyllgor Cynllunio:

i) Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins, y dylid prynu 10 switsh amser am bris o £4 yr un ar gyfer y goleuadau Nadolig. Roedd pawb o blaid.
ii) Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas, bod Mr Paul Rees yn cael ei dalu am y trydan a ddefnyddiwyd yn ei gartref am fod y goleuadau Nadolig wedi eu cysylltu iddo. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

**Cof 246/ Ion/ 10 Eitemau o fusnes y penderfynodd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Penderfynwyd y byddai amcangyfrifon i ddiweddaru bwrdd y Maer yn y Siambr yn cael eu ceisio, fel y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith yn dilyn y CCB.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15yh